DURSTON, THOMAS (bu farw 1767), gwerthwr llyfrau ac argraffydd llyfrau a baledi yn Amwythig.

Enw: Thomas Durston
Dyddiad marw: 1767
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwerthwr llyfrau ac argraffydd llyfrau a baledi
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: William Llewelyn Davies

Er nad yw'n sicr mai Cymro oedd Thomas Durston, argraffodd gynifer o lyfrau a baledi Cymraeg nes haeddu ohono gofnod byr yn y gwaith hwn. Dechreuodd argraffu yn Amwythig yn 1711 (e.e. *Y Lyfr Gweddi-Gyffredin, Y Cydymmaith Goreu; yn y ty a'r stafell, cystal ac yn y Deml*). Cafodd ryddfreiniad y 'Combrethren of Saddlers' ar 23 Mai 1714. Y mae'n debyg iddo barhau mewn busnes hyd ei gladdu ar 26 Medi 1767. Ynglyn â'i ddiffyg egwyddor ynglyn a gwaith argraffwyr eraill, gweler J. H. Davies, 'Early Welsh Bibliography,' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1897-8. Am deitlau rhai o gynhyrchion ei wasg gweler y ffynonellau a enwir isod.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*

W. Rowlands, *Y Traethodydd*, 1850

J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (1908-11)

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

Llewelyn C. Lloyd, 'The Book-Trade in Shropshire,' yn *Transactions of the Shropshire Archaeological and Natural History Society*, 1935, 1936

Gweithiau

Y Brif addysg i ddarllain gyntaf, neu, Brimer Cymraeg a osodwyd allan yn gyfattebol i'r Llyfr Gwedi Gyffredin (Shrewsbury c.1730)

Thomas a Kempis, Hugh Owen (cyf.), *Pattrwm y gwir-Gristion: neu, Ddilyniad Jesu Grist* (Mwythig c.1730)

Lewis Bayly, Rowland Vaughan (cyf.), *Yr Ymarfer o Dduwioldeb, yn cyfarwyddo dyn i rodio fal y rhyngo ef fodd Duw* (Llundain 1630)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734435

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu